# Google Expeditions - Cynllun y Wers

| TEITL Y WERS |
|---|
| Rhyd-y-car: Cartrefi drwy Amser |
| **CEFNDIR Y WERS** |
| Yn y wers hon bydd disgyblion yn mynd ar daith i Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru. Teithiwch drwy amser yn nhai teras Rhyd-y-car. Cymerwch gip ar chwe chartref ar hyd y teras i weld sut mae'r ystafelloedd, y dodrefn a'r cynnwys yn newid rhwng 1805 a 1985.<br><br>Os byddwch chi'n mwynhau'r daith, dewch i Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru i weld yr adeiladau go iawn. Am fwy o wybodaeth am adnoddau addysg yr Amgueddfa ewch i: amgueddfa.cymru/sainffagan/addysg/<br><br>**Blynyddoedd**: CA2 (Blynyddoedd 3–6)<br>**Pynciau**: Hanes a'r Dyniaethau<br>**Amcanion**: Bydd disgyblion yn gallu sylwi ar y gwahaniaethau rhwng y tai a rhwng safonau byw gwahanol gyfnodau.<br>**Cwestiynau arweiniol**: Sut y gwnaeth cartrefi pobl newid dros amser?<br>Sut mae'r cartrefi hyn yn cymharu â'ch cartrefi chi? |
| **PARATOI AR GYFER Y DAITH** |
| Taith: Rhyd-y-car: Cartrefi drwy Amser<br>https://expeditions.gle/fdl/rb7s<br><br>Panoramas:<br>• **Tu allan i'r Tai**<br>• **Tŷ 1805**<br>• **Tŷ 1855**<br>• **Tŷ 1895**<br>• **Tŷ 1925**<br>• **Tŷ 1955**<br>• **Sied 1955**<br>• **Tŷ 1985**<br>• **Cegin 1985** |

| CYN Y DAITH |
| --- |
| Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach. Gofynnwch i bob grŵp astudio un o'r 6 cyfnod ar y Daith. Gall y disgyblion ganolbwyntio eu hymchwil ar Merthyr Tudful, lle mae'r tai yn dod yn wreiddiol. Neu gallant ganolbwyntio ar eu hardal leol.<br>**Cwestiynau Ymchwil Posibl:**<br>Beth oedd swyddi pobl?<br>Beth oedd ganddyn nhw yn eu tai?<br>Beth oedd pobl yn fwyta?<br>Beth oedd pobl yn ei wisgo?<br>Beth oedd adloniant pobl?<br><br>Pan mae'r disgyblion wedi gorffen eu hymchwil gofynnwch iddyn nhw rannu'r wybodaeth gyda grwpiau eraill. |
| **YN YSTOD Y DAITH** |
| Rhowch ddau banorama i bob grŵp eu cymharu a'u cyferbynnu. Gofynnwch i bob grŵp gymharu a chyferbynnu'r panoramas i'w cartrefi eu hunain.<br>**Cwestiynau Posibl:**<br>Beth sy'n wahanol rhwng y tŷ hwn â thŷ ____?<br>Beth sy'n debyg rhwng y tŷ hwn a thŷ ____?<br>Beth sy'n debyg i'ch tŷ chi?<br>Beth sy'n wahanol i'ch tŷ chi?<br><br>**Gweithgareddau Disgyblion:**<br>Rhwng pob panorama rhowch gyfle i ddisgyblion drafod beth maen nhw newydd ei weld a chofnodi'r wybodaeth ar y taflenni gwaith 'Cartrefi drwy Amser' isod. |
| **AR ÔL Y DAITH** |
| Pob grŵp i adrodd yn ôl i'r dosbarth ar beth maen nhw wedi'i ddarganfod. |
| **SYNIADAU PELLACH** |
| Gofynnwch i'r myfyrwyr ddod o hyd i wrthrych o un o'r cyfnodau i'w ddangos i'r dosbarth. Os na allant ddod o hyd i wrthrych, gallant ddefnyddio'r we i chwilio am wrthrych i'w drafod. Mae gan Amgueddfa Cymru dros hanner miliwn o wrthrychau yn ein casgliadau ar-lein: amgueddfa.cymru/casgliadau/ |

## Cartrefi drwy Amser

Rwy'n edrych ar ____________________ a _____________________.

**1. Beth sy'n debyg rhwng fy nhŷ i â _______________?**

__________________________________________________________________

__________________________________________________________________

__________________________________________________________________

__________________________________________________________________

__________________________________________________________________

__________________________________________________________________

__________________________________________________________________

__________________________________________________________________

**2. Beth sy'n wahanol rhwng fy nhŷ i â _________________?**

__________________________________________________________________

__________________________________________________________________

__________________________________________________________________

__________________________________________________________________

__________________________________________________________________

__________________________________________________________________

__________________________________________________________________

__________________________________________________________________

**3. Beth sy'n debyg rhwng fy nhŷ i â _________________?**

____________________________________________________________________________

____________________________________________________________________________

____________________________________________________________________________

____________________________________________________________________________

____________________________________________________________________________

____________________________________________________________________________

____________________________________________________________________________

____________________________________________________________________________

**4. Beth sy'n wahanol rhwng fy nhŷ i â ___________________?**

____________________________________________________________________________

____________________________________________________________________________

____________________________________________________________________________

____________________________________________________________________________

____________________________________________________________________________

____________________________________________________________________________

____________________________________________________________________________

____________________________________________________________________________

**5. Beth sy'n debyg rhwng ____________________ a __________________?**

**6. Beth sy'n wahanol rhwng ____________________ a __________________?**